

## THEORI NEWID - GALLU, DIWYLLIANT AC ARFER

### PARTNERIAETH

Gallu a modd i arwain gwelliant ar y cyd

Diwylliant o rannu cyfrifoldeb

Systemau a phrosesau agored a thryloyw

### ARWEINYDDIAETH

Mwy o hyder wrth arwain gwelliant ar y cyd

Cryfhau ymddiriedaeth ar draws, a rhwng timau arwain

Adolygu cymheiriaid, cefnogaeth ddilynol ac ymyrraeth unigryw yn rhan lawn o gylchoedd gwella ysgol

### ATHRAWON

Mwy o berchnogaeth a gafael ar strategaethau gwella a newidiadau mewn arfer

Gwella ymddiriedaeth ar draws timau

Athrawon yn ymwybodol o'r flaenoriaeth ar gyfer gwella, a'u cyfrifoldeb am newid arferion

### DISGYBLION

Gwella cyrhaeddiad a deilliannau sy'n benodol i'r ysgol

## SCHOOLS PARTNERSHIP PROGRAMME



### CYFARFOD CYN-ADOLYGU

#### PARATOI AM YR ADOLYGIAD

Ysgol letyol yn canfod maes/meysydd posibl i'w hadolygu ar sail hunan arfarnu, syniadau yn fframwaith y RhPY, ac ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Gwybodaeth am yr ysgol yn ymwneud â'r thema yn cael ei hanfon at yr adolygydd arweiniol/tîm adolygu o flaen y cyfarfod cyn adolygu.

*Ysgrifennu. Data a sylwadau gan staff yn dangos bod disgyblion yn perfformio'n well mewn darllen a mathemateg.*

Y cyfarfod cyn-adolygu rhwng y Pennaeth lletyol a'r adolygydd arweiniol (ac eraill) yn caboli a miniogi ffocws yr ymholiad ar gyfer yr adolygiad.

*I ba raddau y caiff strategaethau ysgrifennu eu haddysgu, eu modelu a'u cynnal? I ba raddau mae disgyblion yn datblygu sgiliau trawsgrifio a llunio brawddeg drwy ymarfer yn helaeth?*

Cytuno ar ffynonellau tystiolaeth posibl ar gyfer yr adolygiad a braslun ar gyfer diwrnod yr adolygiad.

*Cyfweld disgyblion, trafod efo staff gan gynnwys yr arweinydd newydd ar gyfer llythrennedd, adolygu cynllunio, craffu ar lyfrau, ac ymweld â gwersi llythrennedd.*

Adolygydd arweiniol yn briffio aelodau'r tîm adolygu. Pennaeth lletyol yn briffio'r holl staff ar faes a rhaglen ar gyfer diwrnod yr adolygiad.

Canlyniadau sy'n bwydo i weithgarwch parhaus y bartneriaeth.



### CYFARFOD ADOLYGU

#### CYNNAL YR ADOLYGIAD AC ADRODD YN ÔL

Y tîm adolygu yn cyflwyno eu hunain i'r staff ac yn cadarnhau trefniadau'r dydd. Casglu lluo dystiolaeth a chymryd nodiadau.

*Adolygu enghreifftiau ysgrifennu gan bob grŵp blwyddyn, grwpiau ffocws disgyblion, adolygu'r cynlluniau ar gyfer ysgrifennu, trafod efo grŵp ffocws athrawon, ymweld â gwersi ble canolbwyntir ar ysgrifennu. Trafod efo'r arweinydd llythrennedd.*

Y tîm adolygu yn casglu ynghyd y penawdau o'r dystiolaeth a gasglwyd, gan gynnwys meysydd i'w rhannu a'u datlunio a'r rheiny i'w datblygu ymhellach. Maent yn rhoi sylwadau ar lafar i'r ysgol letyol, gan gynnwys yr hwyluswyr gwelliant (HG) a fydd yn hwyluso'r gweithdy gwelliant. Cytunir ar fraslun i'r gweithdy, gan gynnwys ble gellir defnyddio ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a'r agweddau ar arferion i edrych yn fanylach arnynt a'u datblygu.

*Sut allwn ni sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau uchel mewn gwaith ysgrifennu ar draws yr ysgol? Sut allwn ni sicrhau y cynllunir, ac y manteisir ar gyfleoedd ystyrlon ar gyfer ysgrifennu mewn gwaith prosiect? Sut allwn ni sicrhau ein bod yn defnyddio dull cyson i asesu gwaith ysgrifennu?*

Canlyniadau sy'n bwydo i weithgarwch parhaus y bartneriaeth.



### GWEITHDY GWELLIANT

#### DILYN YMLAEN O'R ADOLYGIAD - GWEITHREDU

HG yn hwyluso'r gweithdy gwelliant, i edrych yn fanwl ar y materion sy'n wynebu'r ysgol a, ble'n bosibl, yn tynnu ar waith ymchwil/arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn adnabod datrysiadau posibl.

*Ar ôl edrych ar yr elfennau yng nghanllawiau llythrennedd y CS a CA2, staff yn gweithio mewn grwpiau i ystyried y materion gwaledodol a'r anghysondebau ar draws y themâu. Edrychir ar ddatrysiadau posibl, a chytuno ar rai.*

Crynhir y camau gweithredu cytûn i'r ysgol letyol ar ddiwedd y gweithdy.

*Ysgol i lunio portffolio o waith ysgrifennu wedi'i gymedroli, gyda chymorth cydweithwyr profiadol. Arweinwyr CA i weithio gyda'u timau i adolygu'r cyfleoedd i blethu gwaith ysgrifennu estynedig mewn cynlluniau ar gyfer gwaith prosiect.*

Adnabod cyfleoedd am ragor o gefnogaeth ysgol-i-ysgol, DPP, Datblygu Arferion ar y Cyd, neu rwydweithio efo eraill yn y bartneriaeth.

*Arweinydd llythrennedd profiadol i weithio gyda'r arweinydd newydd. Grŵp datblygu llythrennedd i weithio ar adnoddau er mwyn asesu a chymedroli gwaith ysgrifennu yn gyson.*

Adolygydd arweiniol yn gwirio efo'r ysgol tua 12 wythnos wedi'r adolygiad.

Canlyniadau sy'n bwydo i weithgarwch parhaus y bartneriaeth.

#### Gweithgarwch dilynol ar lefel ysgol

Yr UDA yn corffori canlyniadau'r gweithdy yng nghynllun gwella'r ysgol a chynlluniau HMS. Adnabod tîm newid ac arwain i symud ymlaen efo'r datrysiadau a'r strategaethau. Adnabod pa gefnogaeth a hyfforddiant sydd angen, yn benodol, i wneud newidiadau a, ble'n bosibl, fe'u ceir gan y bartneriaeth.

Adnabod pa gefnogaeth a hyfforddiant penodol sydd angen i wneud newidiadau, a broceru'r gefnogaeth gan y bartneriaeth ble'n bosibl.


#### Gweithgarwch dilynol ar lefel y bartneriaeth

Cydweithwyr ar draws y bartneriaeth sydd â'r arbenigedd briodol yn cefnogi cydweithwyr o'r ysgol letyol. Staff o'r ysgol letyol yn arsylwi ac yn trafod arferion cysylltiedig mewn llythrennedd ac addysgu ysgrifennu mewn lleoliadau eraill ar draws y bartneriaeth. Materion a themâu cysylltiedig yn bwydo i HMS o fewn y bartneriaeth. Arweinwyr y bartneriaeth yn comisiynu hyfforddiant a chefnogaeth penodol ble mae'r gallu a'r modd yn gyfyngedig o fewn y bartneriaeth.

### Yr hyn a ddysgwyd o adolygiadau cymheiriaid unigol, gweithdai dilynol a gweithredu yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus partneriaeth gynaliadwy, sy'n hunan-wella dan arweiniad ysgol. Er mwyn cael cymaint o effaith â phosibl, dylai'r bartneriaeth gyfarfod yn rheolaidd i fyfyrto ar:


#### Ein hymrwymiad i welliant y naill a'r llall

A yw pawb yn buddsoddi o ddifri, ac yn gyson, yn y broses?




#### Ein hymrwymiad i newid credoau ac ymddygiad

A ydym ni'n meddwl ac yn ymddwyn yn wahanol am sut rydym ni'n gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth?




#### Ein hymrwymiad i ddatblygu ffyrdd o weithio mewn partneriaeth

A ydym ni'n croesawu prosesau adolygu cymheiriaid, a'u datblygu, yn arferion gwella ehangach ein hysgol?



#### Ein hymrwymiad i ddisgyblion

A ydym ni'n canolbwyntio ar y pethau a wnaiff y gwahaniaeth mwyaf i ddisgyblion?



**Y bartneriaeth yn mireinio'r RhPY a'i rhoi mewn cyd-destun ar gyfer cam nesaf yr adolygiadau.**



## CYFARFOD CYN-ADOLYGU

### PARATOI AM YR ADOLYGIAD

Ysgol letyol yn canfod maes/meysydd posibl i'w hadolygu ar sail hunan arfarnu, syniadau yn fframwaith y RhPY, ac ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Gwybodaeth am yr ysgol yn ymwneud â'r thema yn cael ei hanfon at yr adolygydd arweiniol/tîm adolygu o flaen y cyfarfod cyn adolygu.

*Eich meysydd ffocws:*

Mae'r cyfarfod cyn-adolygu rhwng y pennaeth lletyol a'r adolygydd arweiniol (ac eraill) yn mireinio a miniogi ffocws ymholi yr adolygiad.

*Cwestiynau ymholi:*

Cytuno ar ffynonellau tystiolaeth posibl ar gyfer yr adolygiad a braslun gyfer diwrnod yr adolygiad.

*Eich ffynonellau tystiolaeth:*

Adolygydd arweiniol yn briffio aelodau'r tîm adolygu. Pennaeth lletyol yn briffio'r holl staff ar ffocws a rhaglen y diwrnod adolygu.

Canlyniadau sy'n bwydo i weithgarwch parhaus y bartneriaeth



## CYFARFOD ADOLYGU

### CYNNAL YR ADOLYGIAD AC ADRODD YN ÔL

Y tîm adolygu yn cyflwyno eu hunain i'r staff ac yn cadarnhau trefniadau'r dydd. Casglu lluo dystiolaeth a chymryd nodiadau.

*Ystod a dyfnder y dystiolaeth:*

Tîm adolygu yn casglu ynghyd y penawdau o'r dystiolaeth a gasglwyd, gan gynnwys meysydd i'w rhannu a'u dathlu, a'r rheiny i'w datblygu ymhellach. Maent yn rhoi sylwadau ar lafar i'r ysgol letyol, gan gynnwys yr hwyluswyr gwelliant (HG) a fydd yn hwyluso'r gweithdy gwelliant.

*Dyma'n cynulleidfa:*

Cytunir ar fraslun i'r gweithdy, gan gynnwys ble gellir defnyddio ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a'r agweddau ar arferion i edrych yn fanylach arnynt a'u datblygu.

*Eich thema(u) ar gyfer y gweithdy gwelliant:*

Canlyniadau sy'n bwydo i weithgarwch parhaus y bartneriaeth



## GWEITHDY GWELLIANT

### DILYN YMLAEN O'R ADOLYGIAD - GWEITHREDU

HG yn hwyluso'r gweithdy gwelliant, i edrych yn fanwl ar y materion sy'n wynebu'r ysgol, a ble'n bosibl, tynnu ar waith ymchwil/arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac edrych am ddatrysiadau posibl.

*Cynllun eich gweithdy:*

Caiff y camau gweithredu cytûn i'r ysgol letyol eu crynhoi ar ddiwedd y gweithdy.

*Camau gweithredu cytûn i'r ysgol:*

Adnabod cyfleoedd am ragor o gefnogaeth ysgol-i-ysgol, DPP, Datblygu Arferion ar y Cyd, neu rwydweithio efo eraill yn y bartneriaeth.

*Camau gweithredu ar draws y bartneriaeth:*

Adolygydd arweiniol yn gwirio efo'r ysgol tua 12 wythnos wedi'r adolygiad.

Canlyniadau sy'n bwydo i weithgarwch parhaus y bartneriaeth

Gweithgarwch dilynol ar lefel ysgol

Gweithgarwch dilynol ar lefel y bartneriaeth

Yr hyn a ddysgwyd o adolygiadau cymheiriaid unigol, gweithdai dilynol a gweithredu yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus partneriaeth gynaliadwy, sy'n hunan-wella dan arweiniad ysgol. Er mwyn cael cymaint o effaith â phosibl, dylai'r bartneriaeth gyfarfod yn rheolaidd i fyfyrion ar:

Ein hymrwymiad i welliant y naill a'r llall  
A yw pawb yn buddsoddi o ddifri, ac yn gyson, yn y broses?

- A ydym ni'n cadw at ein cynlluniau ac yn cael y maen i'r wal?
- A ydym ni'n adrodd yn ôl, yn myfyrio, ac yn gweithredu, ar draws ein partneriaeth?
- A yw ein harfer yn unol â'n disgwyliadau?

Ein hymrwymiad i newid credoau ac ymddygiad  
A ydym ni'n meddwl ac yn ymddwyn yn wahanol am sut rydym ni'n gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth?

- A ydym ni'n adnabod, yn datblygu ac yn defnyddio dawn a chynhwysedd ar draws ein partneriaeth?
- A ydym ni'n fwy hyderus o ran dwyn ein gilydd i gyfrif am weithrededd?
- A ydym ni'n bod yn gwbl onest ac agored?

Ein hymrwymiad i ddatblygu ffyrdd o weithio mewn partneriaeth  
A ydym ni'n croesawu prosesau adolygu cymheiriaid, a'u datblygu, yn arferion gwella ehangach ein hysgol?

- A ydym ni'n adrodd yn ôl, ac yn myfyrio ar effeithiolrwydd ac effaith prosesau adolygu cymheiriaid?
- A ydym ni'n datblygu ffyrdd arloesol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i gynnwys arweinwyr ac athrawon mewn arferion gwella cydweithredol?
- A ydym ni'n cadw at ein protocolau neu ein Memorandwm Dealltwriaeth?

Ein hymrwymiad i ddisgyblion  
A ydym ni'n canolbwyntio ar y pethau a wnaiff y gwahaniaeth mwyaf i ddisgyblion?

- A ydym ni'n datblygu blaenoriaethau cyffredin, yn targedu meysydd ble gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i'n disgyblion gwella'n gilydd?
- A ydym ni'n adnabod ein data ein hunain, a data eraill, yn dda, fel y gallwn weld tueddiadau a rhoi sylw i risg yn fuan?
- A yw athrawon yn datrys problemau pedagogiaid efo'i gilydd, yn canolbwyntio ar feysydd angen, ac yn defnyddio dulliau sy'n deillio o dystiolaeth?

Y bartneriaeth wedi mireinio'r RhPY a'i rhoi mewn cyd-destun yn barod at gam nesaf yr adolygiadau